

Iorwerth – D, Peniarth 32, f. 1r

Howel Da mab Kadell, brenhin Kymry oll, a weles y Gymry yn camaruer o'r kyfreitheu, a dyfynnawd attaw hyt y Ty Gwynn ar Daf chwegwyr o bob kantref yng Kymry, y pedwar onadunt yn lleygyon, a'r deu yn ysgolheigyon. Sef achaws y dyuynnwyd yr ysgolheigyon, rac doddi o'r lleygyon petheu a vei yn erbyn yr ysgruthyr lan. Sef amser y doethant yno, y Garawys. Sef achaws y doethant y Garawys, wrth dylu o bawp bot yn gyfyawn yn yr amser gleindyt hwnnw, ac na wnelei gam yn yr amser gleindyt. Ac o gyghor a chytsynedigaeth y doethon y doethant yno, yr hen gyfreitheu a edrychasant, a rei onadunt a adasant y redec, ac ereill a emendanasant, ac ereill yn gwbyl a dileasant, ac ereill o newyd a ossodasant. A gwedy honni onadunt y kyfreitheu a varnasant eu kadw, Howel a rodes y awdurdawt udunt ac a orchymynnawd eu kadw yn gadarn ac yn graff. A Howel a'r doethon a uuant ygyt ac ef a ossodasant eu hemelldith a'r honn Gymry oll ar y neb yg Kymry a lycerei y kyfreitheu heb eu kadw. Ac a ossodasant eu hemelltith ar yr ygnat a gymerei diofryt brawt, ac ar yr arglwyd a'e rodei idaw, ar ny wypei deir kolofyn kyfreith a gwerth gwyllt a dof ac a vei aghen y dynawl aruer wrthaw.

Iorwerth – D

Hywel Dda mab Cadell, brenin Cymru oll, a welodd ei Gymry yn camarfer y cyfreithiau, a galwodd ato hyd y Tŷ Gwyn ar Daf chwe gŵr o bob cantref yng Nghymru, y pedwar ohonynt yn lleygwyr, a'r ddau yn glerigwyr. Dyma pam y galwyd y clerigwyr, rhag i'r lleygwyr ddodi pethau a fyddai yn erbyn yr ysgrythur lân. Dyma'r amser y daethant yno, y Grawys. Dyma pam y daethant yn ystod y Grawys, gan ei bod yn iawn i bawb fod yn gyfiawn yn yr amser sanctaidd hwnnw, ac na ddylai neb wneuthur cam yn yr amser sanctaidd. A thrwy gyngor a chytundeb y doethion a ddaeth yno, fe archwiliasant yr hen gyfreithiau, ac fe adawsant rai ohonynt i redeg, a diwygiasant eraill, a dileasant eraill yn gyfan gwbl, a gosodasant rai eraill o'r newydd. Ac wedi iddynt ddatgan y cyfreithiau a farnasant eu cadw, rhoddodd Hywel ei awdurdod iddynt a gorchmynnodd eu cadw yn gadarn ac yn ofalus. A gosododd Hywel a'r doethion a fu gydag ef eu melltith a melltith Cymru oll ar bwy bynnag yng Nghymru a lygrai'r cyfreithiau heb eu cadw. Ac fe osodasant eu melltith ar yr ynad a gymerai lw barnu, ac ar yr arglwydd a roddai'r swydd iddo, na wypai dair colofn cyfraith a gwerth gwyllt a dof a pha beth bynnag y byddai angen i ddynion ei ddefnyddio.

Cyfnerth – X, Cotton Cleopatra B V, f. 165r

Brenhin Kymry, Hywel Da mab Kadell, a wnaeth drwy rad Duw a gwedi a dyrwest, can oed eidaw ef Kymry y dan y theruyn: pedwar cantref a thrugein Deheubarth, a deunaw cantref Gwynedd, a thri vgein tref tra Chyrchell, a thrugein tref Buellt; ac in tervyn hynny nyd geir neb arall arnaw ef, a geir yw y eir ef ar pawb. Essef ytt oed, dryc dedyuev a dryc kyfreithieu kyn noc ef. Y kymerth ynteu chwe gwr o bop kymwd yg Kymry ac y duc attaw y'r Ty Gwynn; a seith vgein baglawc y rwng esgyb ac archesgyb ac abadeu ac athraon da, y wneuthur y kyfreithyev da ac y diot y rei drwc a oed kyn noc ef ac y wneuthur y rei da yn ev lle, ac y cadarnhav y enw yhvn. Ac o'r niuer hwnnw y dewisswyd y deudec lleyc doethaf a'r vn scolheic doethaf y wneuthur y kyfureithyev. Essef a wnaethant wy ban daruu gwneuthur y kyfureithyev: doddi emelldith Duw ac vn y gynulleidua honno ac vn Kymry benbaladyr ar y neb a dorrei y kyfureithyev hynn. A'r llyfuyr hwnn herewyd Morgenev a Chyuanerth y mab y digoned.

A chyfureithyev llys a edrychwyd yn gyntaf kan oedyn penhaf o'r kyfureithyev. Brenhin a'r vrenhines, ac eu pedwar swydawc ar hugeint: penteulu, effeirad teulu, distein, ygnad llys, hebogyd, penguastrawd, penkynydd, gwas ystauell, distein y urenhines, effeiryad y urenhines, bard teulv, gostegwr, dryssawr y neuad, dryssawr yr ystauell, morwyn ystauell, gwastrawd afwyn, kanhwyllyd, trullyad, mettyd, swyd gwyr llys, coc, troedawc, medyc, gwastrawd afwyn y urenhines.

Cyfnerth – X

Brenin Cymru, Hywel Dda mab Cadell, a wnaeth trwy ras Duw a gweddi a dirwest, oherwydd eiddo ef oedd Cymru hyd ei therfynau: pedwar cantref a thrigain y Deheubarth, a deunaw cantref Gwynedd, a thrigain tref y tu hwnt i afon Cyrchell, a thrigain tref Buellt; ac o fewn y terfynau hynny nid gair yw gair neb arall arno ef, ac y mae ei air ef yn air ar bawb. Dyna oedd cyn ei amser ef, deddfau drwg a chyfreithiau drwg. Cymerodd yntau chwe gŵr o bob cwmwd yng Nghymru a daeth â hwy ato i'r Tŷ Gwyn; a saith ugain gŵr eglwysig yn dal bagl, rhwng esgobion ac archesgobion ac abadau ac athrawon da, i lunio'r cyfreithiau da ac i gael gwared ar y rhai drwg a oedd yn bod cyn ei amser ef ac i lunio rhai da yn eu lle, a'u cadarnhau yn ei enw ei hun. Ac o'r cynulliad hwnnw y dewiswyd y deuddeg lleygwr doethaf a'r un clerigwr doethaf i lunio'r cyfreithiau. Dyma a wnaethant hwy wedi gorffen llunio'r cyfreithiau: doddi melltith Duw ac un y gynulleidfa honno ac un Cymru benbaladr ar bwy bynnag a dorrai'r cyfreithiau hyn. A gwnaed y llyfr hwn yn ôl cyfarwyddyd Morgenau a Chyferth ei fab.

Ac archwiliwyd cyfreithiau'r llys yn gyntaf gan mai'r pennaf o'r cyfreithiau oeddynt. Y brenin a'r frenhines, a'u pedwar swyddog ar hugain: penteulu, offeiriad teulu, distain, ynad llys, hebogydd, pengwastrawd, pencynydd, gwas ystafell, distain y frenhines, offeiriad y frenhines, bardd teulu, gostegwr, dryswr y neuad, dryswr yr ystafell, morwyn ystafell, gwastrawd afwyn, canhwyllydd, trulliad, meddydd, swyddwr llys, cogydd, troediog, meddyg, gwastrawd afwyn y frenhines.

Blegywryd – I, Peniarth 38, f. 1r

Hywel Da o rat Duw, mab Kadell, brenhin Kymry oll a welas y Kymry yn kamarueru o gyfreitheu a deuodeu, a dyuynnwys attaw hwegwyr o bob kymhwt yghymry a aruerynt o awdurdawt ac ygnataeth, a holl eglwyswyr y teyrnas a aruerynt o teilygdawt bagleu, megys archescob Mynyw, ac escyb ac abateu a phrioreu, hyt y lle a elwir y Ty Gwyn yn Dyfet. Y ty hwnnw a beris ef y adeilat o wyal gwynnon yn llety idaw pan delei y Dyfet y hela, ac wrth hynny y gelwit ef y Ty Gwynn. A'r brenhin a'r gynnulleitua honno a trigyassant yno trwy yr holl Arawys y wediaw Duw trwy dyrwest perfeith ac y erchi rat ar darpar y brenhin y wellau kyfreitheu a deuodeu Kymry. Ac o'r nifer hwnnw, pan deruynawd y Grawys, y dewissawd y brenhin y deudec lleyc doethaf o'e wyr, a'r vn yscolheic doethaf, a elwit yr Athro Vlegywryt, y lunyaethu ac y synhwyrw idaw ac y teyrnas kyfreitheu ac arueroed, yn berfeith ac yn nessaf y gellit y'r wirioned a iawnder. Ac yd erchis y hyscrifennu yn teir ran: ac yn gyntaf, kyfreith y lys peunydyawl; yr eil, kyfreith y wlat; y trydedd, aruer o pop vn ohonunt. Gwedy hynny yd erchis gwneuthur tri llyfyr kyfreith: vn wrth y lys peunydyawl yn bresswyl ygyt ac ef; arall y lys Dinefwr; y trydyd y lys Aberffraw, megys y kaffei teir ran Kymry, Gwyned, Powys a Deheubarth, awdurdawt kyfreith yn eu plith wrth eu reit, yn parawt pop amser. Ac o gyghor y doethon hynny, rei o'r hen gyfreitheu a gynhalyawd, ereill a wellaawd, ereill o gwbyl a dileawd a gossot kyfreitheu newyd yn eu lle. Ac yna y kyhoedes y gyfreith y'r bobyl

yn gwbyl, ac y canhadawd y awdurdawt udunt ar y gyfreith honno, ac y dodet emelltith Duw a'r eidaw ynteu a'r hon Gymry oll ar y neb nys kattwai rac llaw megys y gossodet yna, ony ellit y gwellau o gyfundeb gwlat ac arglwyd.

Blegywryd – I

Hywel Dda trwy ras Duw, mab Cadell, brenin Cymru oll a welodd y Cymry yn camarfer cyfreithiau a defodau, a galwodd ato chwe gŵr o bob cwmwd yng Nghymru a oedd yn arfer awdurdod ac ynadaeth, a holl eglwyswyr y deyrnas a oedd yn arfer teilyngdod dal bagl, megis archesgob Tyddewi, ac esgobion ac abadau a phrioriaid, hyd y lle a elwir y Tŷ Gwyn yn Nyfed. Yr oedd ef wedi peri adeiladu'r tŷ hwnnw o wiail gwynion yn llety iddo pan ddelai i Ddyfed i hela, ac oherwydd hynny y gelwid ef y Tŷ Gwyn. A thrigodd y brenin a'r gynulleidfa honno yno trwy holl gyfnod y Grawys i weddio i Dduw trwy ddirwest perffaith ac i geisio bendith ar fwriad y brenin i wella cyfreithiau a defodau Cymru. Ac o'r cynulliad hwnnw, pan ddaeth y Grawys i ben, y dewisodd y brenin y deuddeg lleygwr doethaf o'i wŷr, a'r un clerigwr doethaf, a elwid yr Athro Flegywryd, i lunio ac i ddehongli cyfreithiau ac arferion iddo ef ac i'w deyrnas, yn berffaith a chyn agosed ag y gellid at wirionedd a chyfiawnder. A gorchmynnodd eu hysgrifennu'n dair rhan: ac yn gyntaf, cyfraith ei lys beunyddiol; yr ail, cyfraith y wlad; y drydedd, y defnydd o bob un ohonynt. Wedi hynny gorchmynnodd lunio tri llyfr cyfraith: un ar gyfer ei lys beunyddiol i aros gydag ef; un arall ar gyfer llys Dinefwr; y trydydd ar gyfer llys Aberffraw, fel y câi tair rhan Cymru, Gwynedd, Powys a'r Deheubarth, awdurdod cyfraith yn eu plith at eu hangen, yn barod bob amser. A thrwy gyngor y doethion hynny, rhai o'r hen gyfreithiau a gynhaliodd, gwellhaodd eraill, dileodd eraill yn gyfan gwbl a gosod

cyfreithiau newydd yn eu lle. Ac yna y cyhoeddodd y gyfraith i'r bobl yn gyfan gwbl, ac fe gadarnhaodd iddynt ei awdurdod dros y gyfraith honno, ac fe roddwyd melltith Duw a'i un yntau ac un Cymru oll ar bwy bynnag na chadwai hwy o hynny ymlaen fel y'u gosodwyd yna, oni ellid eu gwella trwy gytundeb gwlad ac arglwydd.